

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 21	
English	Cymraeg
Int 233 DL17	
Tripod cauldron	Crochan trybedd
<p>Cauldrons feature prominently in the folklore of Wales. This historical example is a copper-alloy tripod cauldron that would have been used to cook over an open fire. Typical of copper alloy cooking pots, it has a repair to one of its legs. It dates to the Medieval period and was found in an area of peat bog close to the spring that supplied Wernhad Mill, near Bronllys.</p> <p>Gift J. Williams-Vaughan - 428</p>	<p>Mae gan grochanau le amlwg mewn llên gwerin yng Nghymru. Crochan trybedd yw'r enghraifft hanesyddol hon gydag aloi copr. Byddai wedi cael ei ddefnyddio i goginio uwchben tân agored. Mae hwn yn nodweddiadol o botiau coginio aloi copr, ac mae un o'i goesau wedi cael ei hatgyweirio. Mae'n dyddio o'r cyfnod canoloesol ac fe'i darganfuwyd mewn mawnog yn agos i'r ffynnon a fu'n cyflenwi Melin Wernhad ger Bronllys.</p> <p>Rhoddd oddi wrth J. Williams-Vaughan - 428</p>
Int232 DL41	
Longcase clock	Cloc cist hir
<p>This longcase clock was made by the Williams family of Trecastle in 1809. The decorated dial is typical of clocks of this period, with the numerals of this clock face replaced by letters spelling out the name of William Watkins. There were several generations of clock makers in the Williams family.</p> <p>Gift J. Morgan, Abercrave - 419</p>	<p>Gwnaed y cloc cist hir hwn gan y teulu Williams o Drecastell ym 1809. Mae'r wyneb addurnedig yn nodweddiadol o glochau o'r cyfnod hwnnw. Yn lle rhifolion ar wyneb y cloc hwn ceir llythyrau sy'n sillafu enw William Watkins. Roedd sawl cenhedlaeth o wneuthurwyr clociau yn nheulu'r Williams.</p> <p>Rhoddd oddi wrth J. Morgan, Aber-craf - 419</p>
Int21-23 DL41	
Fireback, Grate and Firedogs	Cefn tân, Grât a Gobedau
<p>Collected from the Pontywal estate near Bronllys, which dated to around 1500. The fireback and grate has a makers date of 1679 and also includes an image of Pax (peace). The "fire dogs" have naturalistic dogs' heads on each terminal. A mansion was built at Pontywal in 1759. The estate was sold in 1913 and a sanatorium for tuberculosis patients was constructed, this subsequently became the site of Bronllys Hospital</p> <p>Gift Dr I. Williams, Talgarth – 1111.1-3</p>	<p>Casglwyd y gwrthrychau yma o ystâd Pont-y-wal ger Bronllys, a oedd yn dyddio i oddeutu 1500. Mae gan y cefn tân a'r grât ddyddiad gwneuthurwyr o 1679 ac mae hefyd yn cynnwys delwedd o Pax (heddwch). Mae gan y gobedau bennau cŵn naturiol ar bob pen. Adeiladwyd plasty ym Mhont-y-wal ym 1759. Gwerthwyd yr ystâd ym 1913 ac fe adeiladwyd ieuchydfa ar gyfer cleifion y pla gwyn. Wedi hynny fe ddaeth yn safle Ysbyty Bronllys.</p> <p>Rhoddd oddi wrth Dr I. Williams, Talgarth - 1111.1-3</p>
Int10 DL33	
Church hourglass	Awrwydr eglwys

Church hourglasses were used to help the minister keep track of time during services. It takes one hour for sand to fall from the upper to the lower bulb. This hourglass, which has 'Jones 1834' written on the glass, was placed on the pulpit of St. Mary's Church, Brecon to time the sermon. Gift Mr F. Morgan, Talgarth – 401	Roedd awrwydrau eglwys yn cael eu defnyddio i helpu'r gweinidog i gadw golwg ar yr amser yn ystod gwasanaethau. Mae'n cymryd un awr i dywod ddisgyn o'r bylby uchaf i'r bylby isaf. Roedd yr awrwydr hwn yn cael ei roi ar bulpud Eglwys Y Santes Fair, Aberhonddu i amseru'r bregeth. Fe welwch fod 'Jones 1834' wedi'i ysgrifennu ar y gwydr. Rhoddd oddi wrth Mr F. Morgan, Talgarth - 401
Int 31 &32 DL33	
Chapel chalice and paten	CWPAN CYMUN A PHLÂT CYMUNDEB CAPEL
This silver-plated chalice and paten were used in the Wesleyan Methodist Chapel, Talgarth to share the wine and bread in Holy Communion. Built in 1849, it was one of three chapels built in Talgarth in the 19th century. It is now closed, and only the Bethlehem Chapel remains open in Talgarth. Gift Mr & Mrs Sydenham – 1983.11.1-2	Defnyddid y cwpan cymun a phlât cymundeb arianblatiog yma yng Nghapel y Methodistiaid Wesleaid, Talgarth i rannu'r gwin a'r bara yn y Cymun. Cafodd y capel ei adeiladu ym 1849 ac roedd yn un o dri chapel a godwyd yn Nhalgarth yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae bellach ar gau a dim ond Capel Bethlehem sy'n parhau i fod ar agor yn Nhalgarth. Rhoddd oddi wrth Mr a Mrs Sydenham – 1983.11.1-2
Int33 DL33	
Set of communion glasses	Set o wydrau Cymun
This set of 48 communion glasses in silver-plated metal, complete with carrier and lid, was used for administering the consecrated wine at Holy Communion services. It came from Tabernacle Congregational Church, Defynnog, near Sennybridge. The use of individual glasses for the congregation instead of a single chalice originated for hygiene purposes. Gift Mr G. Morgan, Sennybridge – 1988.29.1	Defnyddid y set o 48 gwydr cymun hon i weini'r gwin cysegredig mewn gwasanaethau'r Cymun. Maent yn dod mewn metal arianblatiog gyda dolen gludo a chaead. Fe ddaeth o Eglwys yr Annibynwyr y Tabernacl, Defynnog ger Pontsenni. Defnyddid gwydrau unigol ar gyfer y gynulleidfa yn lle un cwpan cymun i bawb oherwydd rhesymau hylendid. Rhoddd oddi wrth Mr G. Morgan, Pontsenni - 1988.29.1
Int35 DL33	
Collection box	Blwch casglu
This collection box,, shaped like a Bible, was for donations to missionary work overseas. It was made locally in 1917 for the now demolished Tabernacle Congregational Chapel at Defynnog. The initials on the spine stand for London Missionary Society and the Welsh inscription reads 'Christ to the world and the world to Christ'.	Roedd y blwch casglu hwn, mewn siâp Beibl, ar gyfer rhoddion i waith cenhadol tramor. Fe'i gwnaed yn lleol ym 1917 ar gyfer Capel Annibynwyr y Tabernacl yn Defynnog, sydd bellach wedi cael ei ddymchwel. Mae'r llythrennau cyntaf ar y meingefn yn sefyll am London Missionary Society ac fe welwch yr arysgrif yn Gymraeg. <i>[please copy Welsh inscription here as it reads on collection box].</i>

Gift Mr G. Morgan, Sennybridge – 1988.29.1	Rhodd oddi wrth Mr G. Morgan, Pontsenni – 1988.29.1
Int42 DL33	
Figure of Charles Spurgeon	Ffurf Charles Spurgeon
<p>This Staffordshire pottery figure is of the popular 19th century Baptist preacher, Reverend Charles Haddon Spurgeon (1834 - 1892). Known as the 'Prince of Preachers', his sermons and writings are still held in high regard. He was pastor at the Metropolitan Tabernacle in London, the largest church building in its day accommodating 6000 people.</p> <p>Gift S. Crann, Llangors – 1996.39.3</p>	<p>Mae'r ffigwr crochenwaith Swydd Stafford hwn yn darlunio Y Parchedig Charles Haddon Spurgeon, pregethwr y Bedyddwyr poblogaidd o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fe'i hadwaenid fel 'Tywysog y Pregethwyr' ac mae parch mawr tuag at ei ysgrifau a'i bregethau hyd heddiw. Buodd yn fugail yn y Metropolitan Tabernacle yn Llundain, yr adeilad eglwysig mwyaf o'i oes, gyda lle ar gyfer chwe mil o bobl.</p> <p>Rhodd S. Crann, Llangors – 1996.39.3</p>
Cyflwynwyd gan: Liz Bickerton	Dyddiad: 01/03/2020
GEIRIAU 533	
Cwblhawyd gan:	